# Cenn@d

HYDREF 2 2024 — YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* — RHIF 188


## Gŵyl arbennig ym Mhontypridd i ddathlu bywyd Morfydd Llwyn Owen

Mae gŵyl arbennig i ddathlu bywyd ac etifeddiaeth y cerddor arloesol Morfydd Llwyn Owen wedi ei lansio gan Parc Arts, Gwasanaeth Celfyddydau a Diwylliannol Rhondda Cynon Taf, a Chyngor Tref Pontypridd.

Bydd Gŵyl Morfydd Owen, sy'n cael ei chynnal rhwng 11 a 13 Hydref mewn nifer o leoliadau yn Nhrefforest a Phontypridd, yn ceisio ailsefydlu perthynas y fro ag un o'i henwogion anghofiedig. Roedd Morfydd Owen, neu Morfydd Llwyn Owen, a rhoi iddi ei henw barddol, yn gyfansoddwraig, yn bianydd ac yn gantores nodedig. Yn ystod ei gyrfa fer, enillodd nifer o wobrau a chanmoliaeth hael am ei chyfansoddiadau a'i pherfformiadau.

Fe'i ganed yn Nhrefforest yn 1891 i deulu cerddorol a chrefyddol oedd yn aelodau yn Eglwys Bresbyteraidd y Parc. De

Dechreuodd Morfydd ganu'r piano yn bedair oed, ac erbyn ei bod yn chwe blwydd oed roedd yn cyfansoddi cerddoriaeth.

Enillodd ysgoloriaeth i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd ac ar ôl gorffen ei gradd aeth ymlaen i astudio yn yr Academi Gerdd Frenhinol, Llundain. Câi ei chydnabod yn un o fyfyrwyr mwyaf rhagorol ei chenhedlaeth.

Mae ei 250 o lawysgrifau yn cynnwys gweithiau cerddorfaol, siambr a chorawl, caneuon ar eiriau Cymraeg, Saesneg a Ffrangeg, a threfniannau o alawon gwerin Cymreig a Rwsiaidd.

Achosodd ei phriodas ddirgel â'r seicdreiddiwr Freudaidd Ernest Jones densiynau yn ei bywyd personol a phroffesiynol, a bu farw yn 26 oed yn dilyn llawdriniaeth yng nghartref teulu ei gŵr. Diwedd trasig i yrfa arloesol sy'n parhau i gyffroi ac ysbrydoli.




Bydd Gŵyl Morfydd Owen yn cynnwys cyngherddau, perfformiadau, sgyrsiau, arddangosfeydd a gweithgareddau i deuluoedd. Bydd y lleoliadau yn cynnwys Capel y Parc, Trefforest, lle mae Prosiect Parc Arts, canolfan gelfyddydau fechan, wedi ei sefydlu'n ddiweddar gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Ac yn briodol iawn, Morfydd Owen, yn ei harddegau, oedd organyddes gyntaf y capel hwn.

Dywedodd Jessica Morgan, Swyddog Prosiect Parc Arts:

'Nid yn unig y mae stori Morfydd yn stori am dalent gerddorol eithriadol, ond mae hefyd yn gwthio'r ffiniau o safbwynt rôl merched yn y gymdeithas. Drwy ddathlu ei hetifeddiaeth, rydym yn gobeithio y bydd yr ŵyl yn rhoi cyfle i bobl o bob oed a chefndir ym Mhontypridd a thu hwnt i ddychmygu dyfodol newydd iddyn nhw a'u cymunedau.'

Ychwanegodd y Parch. Nan Powell-Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru: 'Cafodd talent gerddorol Morfydd ei meithrin mewn cartref cariadus ac yng nghymdeithas gynnes Eglwys Bresbyteraidd y Parc. Daeth yn organydd yn y capel yn ifanc iawn, a datblygodd ei chrefft drwy gyfansoddi emyn-donau. Roedd ei ffydd yn ysbrydoliaeth i'w dawn anhygoel ac rydyn ni'n falch fod ei bywyd a'i gwaith yn cael eu dathlu yn yr ŵyl arbennig hon yn ei bro.'

Dywedodd Caysha Frederick, Cyngor Tref Pontypridd:

'Rydym mor falch o ailgysylltu stori ac etifeddiaeth Morfydd Owen â'i thref enedigol, Pontypridd. Roedd hi'n berson gwirioneddol drawiadol a hynod ddiddorol, o'i dawn gerddorol eithriadol i'w chariad at y Gymraeg a'i phenderfyniad i gyflawni y tu hwnt i'r terfynau a osodid ar ferched ei dydd. Drwy ddod at ein gilydd i ddathlu ei llwyddiannau nodedig, rydym yn gobeithio ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o bobl greadigol a dangos faint mae hi'n ei olygu i Bontypridd.'

Dywedodd Jesse Britton, Gwasanaethau Celfyddydau a Diwylliannol Rhondda Cynon Taf: 'Er ei statws ym myd cerddoriaeth glasurol a gwerin, mae Morfydd Llwyn Owen yn parhau i fod yn anhysbys i raddau helaeth yn ei thref enedigol. Ein nod yw newid hynny, gan roi cydnabyddiaeth haeddiannol i dalent anhygoel o'n tref ein hunain – un y gall ei gwaith sefyll ochr yn ochr ag Evan James, James James a hyd yn oed Tom Jones!'

Mae rhaglen lawn yr ŵyl a thocynnau digwyddiadau ar gael ar wefan yr ŵyl: https://www.morfydd-owen.cymru/

*(parhad ar y dudalen nesaf)*


Tro i'r Swistir II
Tudalen 5

Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr
Tudalen 6

Sul Digartrefedd – 6 Hydref 2024
Tudalen 8

*Gŵyl arbennig ym Mhontypridd i ddathlu bywyd Morfydd Llwyn Owen* (parhad o dudalen 1)

Am ddiweddariadau, dilynwch:
Facebook: /gwylmorfyddowenfestival
Instagram: @gwylmorfyddowenfestival
YouTube: @gwylmorfyddowenfestival

**Dyma flas o'r hyn fydd ar gael:**

**Sadwrn, 12 Hydref, 2pm – Amgueddfa Pontypridd**
**Llythyrau Morfydd Owen**
Bydd actoresau lleol yn darllen o lythyrau Morfydd gan roi cyfle i'r gynulleidfa glywed geiriau Morfydd yn ogystal â'i cherddoriaeth.



**Sul, 13 Hydref, 3pm – Parc Arts, Trefforest**
**Wil Morus Jones – Taith Gerdded**
Gan ddechrau yng nghanolfan Parc Arts, capel cartref Morfydd, bydd Wil Morus Jones yn arwain taith gerdded ddifyr, ysgafn o gwmpas strydoedd Trefforest gan ailymweld â safleoedd a mannau allweddol yn stori Morfydd Owen. Dewch i ddilyn ôl ei throed drwy'r gymuned a'i lluniodd.

**Sul, 13 Hydref, 5 pm – Parc Arts, Trefforest**
**Bethan Nia a Jess Morgan**
Perfformiad arbennig gan Jessica Morgan a Bethan Nia o ganeuon a ysbrydolwyd gan fywyd Morfydd Owen, ei cherddoriaeth a'r ffordd y mae'n dal i ysbrydoli cenedlaethau o artistiaid – yn neilltuol artistiaid benywaidd sy'n byw ym Mhontypridd a Threfforest a'r cyffiniau.

# O Gefn Gwlad

## Y gorau a'r gwaethaf

Y mae nofelwyr y gorffennol, medden nhw, yn dod yn ôl i fri. Yn Saesneg, un o'r rhai amlycaf yw Charles Dickens, ac un o'i nofelau gorau yw *A Tale of Two Cities.* Clasur o nofel yn wir – gair llac ei ddefnydd erbyn hyn, gan mai ei wir ystyr yng nghyd-destun llenyddiaeth yw cyfrol sydd wedi dal ei phwysau yng nghlorian amser.

Y mae ei brawddeg gynta yn adnabyddus a dwi ddim yn siŵr a yw teitl yr erthygl yn gwir wneud cyfiawnder â hi: '*It was the best of times, it was the worst of times*' – brawddeg sy bron yn nofel am fywyd ar ei phen ei hun.

Mynegi dau eitha y mae'r frawddeg, ac mewn un o ddau eitha yr ydym ninnau, drigolion y llawr, yn tueddu i fyw. Mae nifer y gwrthebau sy'n bodoli yn y Gymraeg, ac ym mhob iaith arall, yn adlewyrchiad o hynny. Ystyriwch rai yn unig yn ychwanegol at y teitl 'gorau a gwaethaf', rhai gafwyd gan y criw yn ein Cylch Trafod wrth inni ystyried hyn oll rai Suliau'n ôl: poeth ac oer, hapus ac anhapus, llawen a thrist, gobeithiol ac anobeithiol. A gallwn fynd ymlaen.

Hyd yn oed pan nad ydym yn brofiadol ein hunain o eithafion megis llawenydd a thristwch, fe'i gwelwn mewn pobol eraill, neu ar y cyfryngau. Y llawenydd anhygoel pan fo tîm y canlynwyr yn sgorio gôl, neu gais; y tristwch – lawr 'yn y dymps' pan mai'r tîm arall sy'n sgorio! Llawenydd gorfoleddus priodas, tristwch affwysol angladd, wedyn. Mae amgylchiadau bywyd fel tasen nhw'n peri mai yn un o'r ddau eitha yr ydym yn byw. A phwysig ein bod yn ymateb yn briodol i'r ddau eitha, gan gofio Chwedl Llyn y Fan lle y cosbwyd y wraig a daeth o'r llyn am ymddwyn yn amhriodol: wylo mewn priodas a chwerthin mewn angladd!

Y cwestiwn, fodd bynnag, yw ai mewn un o ddau eithaf y dylem fod, neu yn y canol? Oni ddylai'r llanast sy mewn cymaint rhannau o'r byd, a'r diodde yn sgil hynny dymheru unrhyw lawenydd sy ynom? Ond ddylai'r gobaith Cristnogol a dyfodiad haf wedi gaeaf liniaru peth ar ein digalondid? Ai cyflwr y canol llonydd yw'r cyflwr delfrydol, cyflwr y gallwn fod ynddo yn fewnol ynghanol trybestod byd?

Gallwn chwilio amdano mewn llawer lle, fel y cymeriad yng ngherdd radio Gwilym R:

> I ble'r ei di, fab y ffôedigaeth,
> A'th gar salŵn yn hymian ar y rhiw
> A lludded yn dy lygaid?

Ac yna daw'r ateb:

> Rwy'n chwilio am y Cwm
> Tu draw i'r cymoedd,
> Am Gwm Tawelwch.

Aiff y bardd ymlaen i ddisgrifio sut le yw'r cwm hwnnw a pham y chwilio amdano.

Onid ydym ninnau, bob un ohonom, yn feibion neu ferched y ffôedigaeth? Yn chwilio efallai yn y mannau anghywir, ac am y cyflwr anghywir, y dianc o bydew anobaith i uchelfannau'r maes, o un eitha i'r llall yn hytrach na cheisio – beth? Y cwm tawelwch sydd i'w gael os ydym yn wir gredinwyr yn ein crefydd, y tangnefedd mewnol addawodd Crist i ni, yr 'hedd na ŵyr y byd amdano' sydd yn yr emyn? Tybed?

A minnau'n hen, rwy'n dal i ofyn am beth y chwiliaf, ac yn fwy dadlennol: ar beth y bodlonais? Ai ar gysur teulu a chydnabod, cyfeillion a chymdogion yn unig? Ac o, mor ffodus y bûm yn y rheini oll. Ar y bodlonrwydd roddodd sawl swydd i mi, a chyd-weithwyr arbennig? A gallaf ddiolch am hynny hefyd. Ai am wir sicrwydd cred neu am 'rith o grefydd heb ei grym' sydd imi falle yn rhyw fath o bolisi insiwrans? Ai am fywyd tawel, canol y ffordd? Wedi oes o brofiadau rwy'n dal yn ei chael yn haws gofyn cwestiynau na'u hateb! Yn bendant yn ei chael yn anodd dweud ai'r gorau neu'r gwaethaf mewn bywyd yw hi erbyn hyn!

A falle nad y canol yw'r lle delfrydol i fod chwaith. Oni chondemniwyd yr eglwys yn Laodicea am fod yn glaear – nac oer na brwd? Ac nid person canol y ffordd oedd Crist pan oedd ar y ddaear, ond eithafwr!

*Elfyn Pritchard*

## Senana Bedyddwyr Cymru

Daeth criw da at ei gilydd ar gyfer cynhadledd flynyddol Senana yn Nhrefeca ar 3–5 Medi dan lywyddiaeth Elsa Harflett a Misha Pederen. Cawsom fendith wrth glywed gan ein cenhades wadd, sef Jackie Chilvers a fu'n gwasanaethu yn Chad. Diolch i'r Senana am eu gwaith pwysig yn cefnogi cenhadaeth ar draws y byd!



## Adnoddau Cynhaeaf: Talentau Gobaith

Wrth i'r tymheredd ostwng, mae'n siŵr fod nifer ohonom yn edrych ymlaen at dymor yr hydref ac at wasanaethau diolch am y cynhaeaf.

Mae cyfle eto i ymwneud ag apêl Talentau Gobaith yr hydref hwn – boed drwy gerdded fel rhan o'n her CERDDED! Cymru a Zimbabwe neu mewn gwasanaethau diolch neu brydau bwyd. Mae syniadau ar ein gwefan y gellir eu defnyddio mewn grwpiau neu wasanaethau: [Gobaith i'r Cynhaeaf ... – Undeb Bedyddwyr Cymru (ubc.cymru)]

Gofynnwn i chi ystyried cefnogi'r apêl hon cyn iddi ddod i ben **ym mis Rhagfyr**. Mae yna ddigon o amser ar ôl i chi fynd ati i gymryd rhan yn y gwaith allweddol sy'n digwydd ar lawr gwlad yn Zimbabwe!







Estynnir croeso cynnes i chi i wasanaeth ordeinio a sefydlu **Gruffudd Jenkins** yn weinidog Maescanner, Dafen, Llanelli, ddydd Sadwrn, 5 Hydref, am 2 o'r gloch.

Cynhadledd Gweinidogion: Cadwch y Dyddiad ...

Mae Cynhadledd Gweinidogion Bedyddwyr Cymru 2025 nawr ar y gorwel!

Cynhelir cynhadledd 2025 yn Eglwys Waterfront, Abertawe, unwaith eto, a hynny ar 10–11 Chwefror. Byddwn yn croesawu Dr Rachel Jordan-Wolf sy'n gyfarwyddwr HOPE Together, mudiad cenhadol sy'n arfogi eglwysi i rannu Iesu gyda'u cymunedau. Mae mwy o fanylion isod ac ar ein gwefan: [Cynhadledd Gweinidogion 2025 – Undeb Bedyddwyr Cymru (ubc.cymru)].

# Croesawu Cymdeithasfa’r Gogledd i Borthmadog ar Hydref 15fed

Gyda’r ymwelwyr wedi ymadael gan fwyaf, fe gawn ein croesawu o ledled gogledd Cymru gan gyfeillion Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd (EBC) i ddiwrnod o Gymdeithasfa yng Nghapel y Porth, Porthmadog, ddydd Mawrth, 15 Hydref. Bydd y cyfarfodydd o dan lywyddiaeth Mrs Meinir Lloyd Jones, sydd, fel ysgrifennydd yr henaduriaeth, hefyd yn gwneud y trefniadau gyda chyfeillion yno yn lleol i’n croesawu a darparu ar ein cyfer. Diolch iddyn nhw am fod mor barod i estyn croeso fel hyn.

Edrychwn ymlaen at fore o drafodaethau hwyliog yn ogystal â chyflwyno apêl ddiweddaraf ein Cyfundeb i estyn cymorth i’r rhai sydd wedi dioddef erledigaeth a chwalfa ar eu hamgylchiadau yn nhalaith Manipur, Gogledd-ddwyrain India. Ar ddiwedd eisteddiad y bore fe gawn gyflwyniad gan Jos Edwards, sydd, ynghyd â’i wraig, Lydia, yn cael eu cefnogi gan Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd i weithio’n genhadol ym Mlaenau Ffestiniog.

Bydd eisteddiad y prynhawn am 2 o’r gloch yn gyfarfod cyhoeddus. Bydd coffa am flaenoriaid a hunodd ers y cyfarfod diwethaf, gweddi gan weinidog yr ofalaeth, y Parch. Chris Prew,




a phregeth ac arweiniad at fwrdd y cymun gan y Parch. Gwyn Rhydderch, Tudweiliog.

Gan edrych ymlaen at weld blaenoriaid a gweinidogion y gogledd, cael cyfle i annog ein gilydd a mwynhau cymdeithas yng nghapel y Porth.

(HP-D; Ysg.)

# Noson i drafod gwaith plant yn ein heglwysi

O dan nawdd Pwyllgor Plant ac Ieuenctid Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro (EBC), cynhaliwyd noson yn ddiweddar yng nghapel y Tabernacl, Aberaeron, ar gyfer y rhai sy’n gweithio gyda phlant ac ieuenctid yr Henaduriaeth.

Calondid mawr oedd cael presenoldeb 18 o bobl frwdfrydig a gweithgar yno, a chafwyd cyfle i glywed gair o anogaeth a rhannu syniadau dan ofal Aled Davies o Gyngor Ysgolion Sul Cymru. Roedd wedi dod â dewis da o lyfrau ac adnoddau gydag ef, ond pwysleisiodd yr un pryd fod llawer iawn o’u hadnoddau hefyd ar gael am ddim ar eu gwefannau erbyn hyn.

Cafwyd trafodaeth fywiog, a bu’n braf clywed am y gwahanol weithgarwch sy’n



Noson i drafod gwaith plant yn ein heglwysi

digwydd o fewn yr Henaduriaeth. Diolch am y tîm arbennig o athrawon ysgol Sul sy’n ymroddedig a brwdfrydig. Diolch hefyd i Carwyn Arthur am ei drefniadau gofalus ar gyfer y noson.

Byddai’r Cyngor Ysgolion Sul yn falch o glywed gan Henaduriaethau / Cymanfaoedd eraill yng Nghymru a fyddai’n barod i drefnu noson gyffelyb. Cysylltwch ag Aled drwy ebostio aled@ysgolsul.com.

# Ordeinio blaenoriaid yn Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro

Yng nghyfarfod Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro yng Nghapel y Garn, Bow Street, ddydd Mercher, 18 Medi, ordeiniwyd tair blaenor newydd, sef: Yr Athro Marged Haycock, Madog; Mrs Delyth Evans a Mrs Rhiannon Jones, Clos-y-graig, Llandysul. Arweiniwyd yr oedfa gan Dr Rhidian Griffiths, Llywydd yr Henaduriaeth. Y Parchedig Carwyn Arthur, Llywydd Cymdeithasfa’r De, oedd yn gyfrifol am yr ordeinio, ac ef hefyd a draddododd siars i’r blaenoriaid newydd.



(O’r chwith) Yr Athro Marged Haycock, Mrs Delyth Evans, y Parch. Carwyn Arthur, Dr Rhidian Griffiths, a Mrs Rhiannon Jones

# Tro i'r Swistir II

Offeiriad pentref oedd Zwingli yn Glarus ac yn Einsiedeln fel ei gilydd, ond gyda'r sôn amdano fel pregethwr herfeiddiol wedi mynd ar led, daeth gwahoddiad iddo, yn niwedd 1518, symud i Zurich. Dinas o chwe mil o drigolion ydoedd, gyda chynifer â chwe chan mil yn byw yn y tiroedd perthynol a ymestynnai ar hyd glannau'r llyn i gyfeiriad y mynyddoedd. Gyda'r sedd esgobol yng Nghonstans bell, roedd yr awdurdod i benodi clerigwyr wedi hen symud oddi wrth swyddogion yr esgobaeth i ddwylo'r cyngor lleol. Rhwng y ddinas a'r plwyfi gwledig, roedd tua dau gant o glerigwyr yn gwasanaethu yno eisoes. Cyfrifoldeb Zwingli fyddai arwain y gweithgareddau yn y *Grossmünster* fawreddog, prif eglwys y ddinas gyda'i dau dŵr uchel yn edrych i lawr at lannau afon Limmat islaw.

Aeth ati yn ddiymdroi i ledaenu ei neges ymhlith y ffyddloniaid. Er y byddai'n dal i weinyddu'r offeren yn y dull traddodiadol a gwrando cyffesion y bobl, yr hyn oedd yn eirias newydd oedd y genadwri o'r pulpud. Soniai am Grist yn hytrach na'r Forwyn Fair yn unig gyfryngwr, y cymhelliad i fynd yn syth at Dduw mewn gweddi yn hytrach na dibynnu ar weddïau'r saint, a'r Testament Newydd yn ei symlrwydd fel yr unig awdurdod ym mhethau ffydd.

Ar ôl gwella o'r pla oedd wedi taro'r ddinas yn 1519 a mynegi ei ddyled i Dduw am ei iacháu, credai fod ganddo gadarnhad dwyfol i barhau â'i waith diwygiadol. (Gyda llaw, ymddangosodd cyfieithiad Mary Burdett-Jones o'i gerdd drawiadol 'Gweddi o Gân ar adeg y Pla' ar dudalennau'r *Traethodydd*, Ebrill 2020.) Erbyn hynny roedd dadl Luther ynglŷn â maddeuebau wedi cyrraedd y Swistir, ac anesmwythyd â'r gyfundrefn eglwysig yn cynyddu ymhobman. Dyrchafwyd Zwingli i ganoniaeth yn y *Grossmünster* – cyn hyn 'offeiriad y bobl' yn unig ydoedd – a gyda chefnogaeth gref cyngor y ddinas, ei nod o hyn allan fyddai diwygio'r eglwys yn drwyadl yn unol â Gair Duw.

O hynny ymlaen symudodd pethau'n gyflym. Yn ystod y Grawys 1522, mynnodd rhai o'r dinasyddion anwybyddu'r hen gyfundrefn trwy wledda'n gyhoeddus ar selsig yn hytrach nag ymprydio. Er gwaethaf cerydd Esgob Constans ac anesmwythyd rhai o'r brodorion traddodiadol gyda gweithred mor heriol, cawsant gefnogaeth Zwingli. 'Canys nid bwyd a diod yw teyrnas Dduw,' meddai, gan ddyfynnu'r Apostol Paul, 'ond cyfiawnder, tangnefedd a llawenydd yn yr Ysbryd Glân.' Cynhaliodd ymgyrch gyhoeddi frwdfrydig, a chyn hir daeth toreth o lyfrau o'i law yn esbonio'r egwyddorion newydd i gynulleidfa awchus yn y ddinas a'r tu hwnt. Cychwynnwyd ar y gwaith o glirio delwau, ffenestri lliw, lluniau'r grog ac organau o'r eglwysi; daeth gorymdeithiau eglwysig i ben a rhoddwyd y gorau i ddefnyddio gwisgoedd ewcharistig.

Ysgrifennodd Zwingli yn erbyn y syniad o offeiriadaeth ddibriod; yn wir, yn Ebrill 1524 cymerodd wraig ei hun. Erbyn y gwanwyn 1525 roedd yr offeren wedi'i dileu a sefydlwyd yn ei lle gymun syml yn canoli ar ddiolchgarwch i Grist a chof am ei aberth. Fel Wittenberg Almaenig



Grossmünster, Zurich, gan [Roland zh; CC-SA 3.0]

o dan arweiniad Luther, dyma Zurich bellach wedi dyfarnu o blaid y ffydd Brotestannaidd, y ddinas gyntaf yn y Swistir i wneud hynny, a chyn hir byddai llawer o ddinasoedd eraill yn ei dilyn.

Yn ffigur deniadol, carismatig a phoblogaidd ac yn wladgarwr pybyr, roedd Zwingli yn ddiwinydd a gyfunai ddyneiddiaeth Grist-ganolog Erasmus gyda phwyslais Luther ar gyfiawnhad trwy ffydd, ac erbyn canol y 1520au roedd popeth fel petai'n gweithio o'i blaid. Yn fuan iawn, fodd bynnag, y byddai pethau yn dechrau troi o chwith.

(i'w barhau)

*D. Densil Morgan*
*Llanbedr Pont Steffan*

## Brecwast Gweddi Sir Benfro

**Cynhelir y Brecwast Gweddi**
**yng Ngwesty Alltyrafon, Casblaidd**
**ddydd Sadwrn, 8 Mawrth 2025**

Person gwadd – Siân Wyn Rees, Cymdeithas y Beibl

Nodwch y dyddiad, os gwelwch yn dda,
a chefnogwch mewn gweddi

Rhagor o wybodaeth gan y Parchg Geraint Morse

07805 617555 neu
geraint.morse@gmail.com

## Caneuon Ffydd – Mynegai Ysgrythurol

Mae llawer iawn o'n hemynau yn dyfynnu o'r ysgrythur neu yn cyfeirio at rannau ohoni, a gall fod yn ddefnyddiol i'r sawl sy'n llunio oedfaon i weld ble mewn emyn y ceir dyfyniad neu gyfeiriad at ryw adnod benodol neu ryw ran o'r Beibl.


Gyda hynny mewn golwg, paratowyd Mynegai Ysgrythurol i *Caneuon Ffydd*, yn y gobaith y gall fod o gymorth i'r sawl sy'n arwain gwasanaethau.

Gellir gweld y mynegai ar wefan *Caneuon Ffydd*, https://caneuonffydd.cymru/mynegai, a gellir ei lawrlwytho oddi yno.

*Rhidian Griffiths*
*Cadeirydd Pwyllgor* Caneuon Ffydd

# *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr*

gan Gareth Lloyd Jones
(Cyhoeddiadau'r Gair)




**Cyfres o astudiaethau gan y Parch. W. Bryn Williams ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* gan Gareth Lloyd Jones**

## 4. 'Dwy wraig weddw yn cyrraedd Bethlehem' (Ruth 1:19–22)

Mae dros ddeng mlynedd wedi mynd heibio ers i Naomi, ei gŵr a'i dau fab adael Bethlehem. Wrth gychwyn am Moab roedd Naomi'n ddiogel yng nghwmni tri dyn, ond wrth iddi gyrraedd yn ôl mae'r sefyllfa'n wahanol iawn. Erbyn hyn mae hi'n un o ddwy wraig weddw ac yn amddifad – yn amddifad o'i meibion a heb ei bendithio ag wyrion chwaith.

Mae eu presenoldeb ym Methlehem yn destun siarad i'r 'holl dref', gan awgrymu bod Naomi ar un adeg wedi perthyn i deulu amlwg o'r dref honno. Efallai hefyd fod Elimelech a hithau wedi wynebu gwrthwynebiad neu feirniadaeth, a hyd yn oed 'edliw' am feddwl disgwyl cael gwell bywyd yn Moab.

Beth bynnag am hynny, ymateb merched Bethlehem ydy gofyn, 'Ai Naomi yw hon?' Mae hithau wedyn yn gwahardd i'r merched ei galw wrth ei henw (gan fod ei henw'n golygu 'daioni prydferth') ac yn gofyn yn hytrach iddynt ei galw'n 'Mara', sy'n golygu 'chwerw'. Trist, yntê, fod Naomi yn personoli tristwch ei sefyllfa hefo enw newydd arni ei hun.

Mae Naomi hefyd yn cyfeirio at chwerwder yr 'Hollalluog' tuag ati. Y gair Hebraeg am 'Hollalluog' ydy 'El Shaddai', sy'n golygu'r 'un sy'n gallu gwneud pob dim'. Iddi hi, mae'r un sy'n gallu gwneud popeth felly'n chwerw wrthi. Fel hyn mae Naomi yn dadansoddi ei sefyllfa, yn hollol resymegol yn y cyfan ac yn eithafol wrth gyfarch y gwragedd, fod yr 'ARGLWYDD wedi tystio i'm herbyn'. Ac wrth gyfeirio bod yr 'ARGLWYDD', sef yr enw personol ar Dduw (yn Hebraeg, YAHWEH), wedi dwyn tystiolaeth yn ei herbyn, mae'n gweld ei dedfryd yn ei hamgylchiadau. Mae'n credu bod Duw yn bersonol yn gyfrifol am ei chosbi, ac yn derbyn ei hamgylchiadau fel cosb am y penderfyniad i fynd i Moab dros ddeng mlynedd ynghynt. Yn ddiwinyddol yma, mae golwg Naomi ar Dduw yn gyfyng ac yn oddrychol. Yn Naomi, welwn ni ddim o brofiad Eseia ym mhennod 38:17, 'Wele, er lles y bu'r holl chwerwder hwn i mi; yn dy gariad dygaist fi o bwll distryw a thaflu fy holl bechodau y tu ôl i'th gefn.'

Ond er bod Naomi'n cyfleu ei sefyllfa'n gwbl anobeithiol i ferched Bethlehem, mae hi'n ddifrifol o esgeulus wrth beidio â chyfeirio at gwmni ei merch yng nghyfraith, Ruth. Tydi hi ddim ar ei phen ei hun; mae Ruth hefo hi. Ruth oedd wedi 'glynu' wrthi (adn. 14). Ruth oedd wedi addo'i theyrngarwch iddi hyd farwolaeth (adn. 17). Yn ei 'chwerwder' ei hun mae Naomi yn canolbwyntio ar ei cholledion ac yn hollol ddall i'r hyn sydd eto o'i phlaid. Dewis cyfleu amgylchiadau ei bywyd drwy sbectol chwerw mae Naomi, ac wrth wneud hynny mae'n ddall i'r hyn sydd o hyd o'i phlaid mewn gwirionedd – Ruth.

Duw, yn ei gariad, ddaeth â Naomi yn ôl i Fethlehem. Duw cariad yn dewis gwneud iddi, yn ôl ei henw, y 'daioni prydferth'. Dod â hi i Fethlehem y pryd hwnnw, 'yn nechrau'r cynhaeaf haidd', er mwyn iddi ymestyn ato a'i weld yn 'tystio', nid yn ei herbyn ond o'i phlaid.

**Cwestiynau i'w trafod:**

1. Wrth feddwl am ferched Bethlehem, ai gofal ynteu beirniadaeth oedd tu ôl i'r 'cyffro'?
2. Sut olwg ar Dduw sydd gan Naomi wrth gyrraedd Bethlehem?
3. Meddyliwch sut roedd Ruth yn teimlo wrth glywed Naomi'n cyfarch merched Bethlehem.

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 6 Hydref – dim rhaglen**

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 6 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Hywel Gwynfryn

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 6 Hydref, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Marian Jones, Wrecsam




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Byw'n Gymunedol

Elfen bwysig o fywyd eglwysig yw cymdeithas y saint. O fewn yr eglwys Gristnogol mae hanes hir i'r arfer o fyw'n gymunedol. Mae rhai Cristnogion hyd yn oed wedi dewis byw ynghyd mewn cymunedau clòs iawn gyda'i gilydd. Mae amgylchiadau amrywiol yn peri i rai bobl fyw'n gymunedol, er enghraifft, carchar i droseddwyr, cartref preswyl i blant neu bobl oedrannus a gwersyll milwrol i filwyr. Dewis rhai yw byw'n gymunedol ond gorfodir hyn ar eraill. Arferai'r eglwys fore gwrdd yn y deml yn Jerwsalem yn ddyddiol gan rannu eu heiddo â'i gilydd. Dinistriwyd y deml yn 70 OC ac felly gwasgarwyd y Cristnogion cynnar ar led. Ond arhosodd yr awydd am gymdeithas gynnes yn eu plith.

Cododd mudiadau yn yr eglwys yn galw ar i Gristnogion fyw ynghyd mewn cymunedau cymdeithasol. Yn eu plith caed mynachod yn byw mewn mynachlogydd, pobl bietistaidd yn byw mewn cymdeithasau clòs a sectau peryglus yn byw mewn lleoedd cyfyngedig. Llwyddiant oedd hanes rhai ohonynt, ond methiant oedd hanes rhai eraill. Pachomius o Thebes (*c*.292–*c*.348) oedd y cyntaf i sylfaenu mynachlog a hynny yn yr Aifft *c*.320. Ffurfiwyd y Benedictiaid gan Benedict o Nursia (*c*.480–*c*.545) yn 529. Tyfodd y mudiad mynachaidd yn sylweddol yn yr Oesoedd Canol gan esgor ar urddau fel y Sistersiaid, y Ffrancisiaid a'r Dominiciaid.

Diddorol oedd ymddangosiad cymunedau Protestannaidd fel y Morafiaid yn y 18fed ganrif dan arweiniad Nikolaus Ludwig Count von Zinzendorf (1700–60). Dylanwadodd y gymuned hon yn fawr iawn ar John Wesley. Tebyg oedd y dylanwad yn hanes Teulu Trefeca yn yr un ganrif, dan arweiniad Howel Harris. Trychinebus oedd hanes sect grefyddol Jim Jones pryd y bu farw 918 o bobl mewn hunanladdiad torfol yn Guyana ym 1978. Dengys hyn eithafion byw'n gymunedol. Mor rhwydd y gall pobl ddidwyll ildio'n ddigwestiwn i arweinydd twyllodrus!

Unigolion o'r un bryd sy'n ffurfio cymuned Gristnogol. Ond mae yna rai unigolion sydd wedi dewis dilyn y bywyd Cristnogol ar eu pennau eu hunain fel meudwyaid. Paul o Thebes (*c*.226–*c*.341) oedd y meudwy Cristnogol cyntaf i fyw yn yr anialwch a hynny rhwng 16 ac 113 mlwydd oed.

Y teulu yw uned sylfaenol cymdeithas. Felly, gall cyd-fyw ag eraill y tu fas i'r teulu naturiol fod yn dipyn o gamp. Ond gall Cristnogion fyw'n gymunedol drwy arfer lletygarwch a chwrdd yn rheolaidd.

Gall cymdogaeth glòs gryfhau'r uned deuluol. Felly, gall yr eglwys gryfhau'r uned deuluol. Mae Cristnogion i fod yn '[l]letygar i'ch gilydd' (1 Pedr 4:9) ac yr ydym i 'annog ein gilydd' (Hebreaid 10:25).

*Peter Davies*

# Rhyfel yn Israel a Gaza – flwyddyn yn ddiweddarach

Wrth i'r Dwyrain Canol agosáu at garreg filltir enbyd blwyddyn ers dechrau'r gwrthdaro diweddaraf, mae Cymorth Cristnogol yn gofyn i gefnogwyr roi, gweithredu a gweddïo – gydag ail-lansio ei apêl frys, gwylnos ar-lein a chyfarfodydd gweddi misol.

Mae Cymorth Cristnogol yn eich gwahodd i lofnodi ei ddeiseb i Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn galw am heddwch cyfiawn, a hefyd i gysylltu â'ch Aelodau Seneddol yn San Steffan yn eu hannog i gefnogi cadoediad. Ar ben-blwydd cyntaf y gwrthdaro presennol, fe gynhelir gwylnos ar-lein am **8am ddydd Llun, 7 Hydref**. Cofrestrwch drwy'r wefan.

Eglurodd Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru: "Mae ein cefnogwyr wedi bod yn anhygoel fel bob amser, gan godi dros £2.2 miliwn hyd yn hyn. Mae hyn wedi ein helpu i gyrraedd dros 800,000 o bobl yn Gaza trwy ein partneriaid lleol, gyda'r canlynol:

- arian parod i deuluoedd sydd wedi'u dadleoli;
- cymorth meddygol mewn clinigau iechyd symudol;
- anghenion sylfaenol fel bwyd, dŵr, blancedi a matresi a lloches, gan gynnwys sefydlu gwersyll hygyrch i bobl ag anableddau.

"Mae Cymorth Cristnogol hefyd wedi bod yn gweithio gyda sefydliad cymdeithas sifil Israelaidd yn Tel Aviv, gan eu cefnogi i ddarparu mannau diogel i ymgynnull yn dilyn trawma 7 Hydref y llynedd. Ond mae'r angen yn enfawr ac mae mwy y gallwn ei wneud, a dyna pam ein bod yn ail-lansio ein hapêl Gaza. Gyda chefnogaeth a gweddïau ein cefnogwyr, gall Cymorth Cristnogol gyrraedd mwy o bobl gyda'r cymorth sydd ei angen arnynt."






# Sul Digartrefedd – 6 Hydref 2024

Mae Housing Justice, sy'n aelod o Cytûn, yn trefnu Sul Digartrefedd ar y Sul cyn Diwrnod Digartrefedd y Byd bob blwyddyn, ac mae Sul Digartrefedd eleni yn digwydd ar 6 Hydref. Y thema yw 'Cymunedau sy'n rhoi diwedd ar Ddigartrefedd' gan fod y rôl y mae eglwysi a chymunedau yn ei chwarae wrth ddileu digartrefedd lleol yn hollbwysig.

Cewch amrywiaeth o adnoddau (Saesneg yn unig a pheth gwybodaeth yn Gymraeg) i'w defnyddio ac i bori ynddyn nhw yma os ydych yn cynllunio oedfa Sul Digartrefedd naill ai ar 6 Hydref neu ar ddyddiad arall o'ch dewis. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys gweddïau wedi'u recordio ymlaen llaw, emynau, homilïau, adnoddau'r Ysgol Sul, gwybodaeth am ddigartrefedd yng Nghymru, a llawer mwy. Rhowch wybod i Housing Justice beth rydych chi'n ei gynllunio trwy e-bostio Joanna Whitney yma.

## Ystadegau: Digartrefedd yng Nghymru

**>2,900**

**2,900 pobl yn cysgu allan bob blwyddyn yng Nghymru – sy'n cyfateb i ddim ond 7% o bobl sy'n profi digartrefedd yng Nghymru ar hyn o bryd**

**9,993**

**nifer yr aelwydydd oedd yn agored i risg o ddigartrefedd y llynedd**

**Lleoliadau sydd â'r nifer uchaf o aelwydydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref**



Heb ffydd a phrosiectau cymunedol fel Cyfiawnder Tai, byddai nifer y bobl sy'n cael eu heffeithio gan ddigartrefedd yn syfrdanol 40% yn uwch.

Mae eich cefnogaeth yn gwneud gwahaniaeth go iawn; ystyriwch ein cefnogi'n ariannol heddiw







Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru